

A man in a dark suit and white shirt stands in a room with dark wood paneling. He is holding a large, bright white sheet in front of him. To his right is a fireplace with a mantel decorated with flowers. Above the mantel is a framed picture of a butterfly. The room is dimly lit, with the white sheet being the primary light source.

VOLCANO

RHEOLWR CYFRYNGAU DIGIDOL A MARCHNATA


Ynglŷn â'r Swydd



PWY YDYN NI?

Rydym yn sefydliad bychan a phrysur, gyda diwylliant unigryw. Mae gweithio gyda ni'n wahanol iawn i weithio mewn corfforaeth neu sefydliad mawr. Mae ein swyddi'n amrywiol ac yn hyblyg, gyda llawer iawn o ymreolaeth. Mae pob swydd yn cynnwys agweddau heriol ac arbenigol sy'n golygu lefel uchel o gyfrifoldeb unigol, ac mae pawb yn chwarae rhan i gyflawni'r pethau bob dydd fel gwneud paneidiau neu dacluso. Mae'n weithle sy'n siwtio pobl sy'n awyddus i gydweithio - yn cyfrannu eu syniadau eu hunain ond hefyd yn gwrando ar eraill, yn rhannu'r gwaith yn deg a manteisio ar gryfderau unigol. Rydym yn gwneud llawer iawn o fathau gwahanol o waith, ac mae creu perfformiadau gwreiddiol wrth wraidd hynny. Mae llawer o'n gwaith ar gyfer pobl ifanc. I ni, mae creu theatr yn ganolog i rwydwaith o ymarferion cymdeithasol a diwylliannol yn ein dinas gartref a ledled Cymru, y DU, Ewrop a thu hwnt.

Sefydliad annibynnol ar lawr gwlad yw Volcano, gyda gwreiddiau anghonfensiynol. Mae egni a phrysurdeb gwaith y cwmni'n dyst i gefndiroedd ei sefydlwyr, oedd yn dod o deuluoedd dosbarth gweithio ym Merthyr Tudful, Dwyrain Llundain ac Abertawe. Cawsant eu dwyn ynghyd gan ymwybyddiaeth o ddosbarthiadau, gwrth-ddiwylliant a chael eu denu gan gyfyngder a risgiau. Mae ein gwaith wedi arallgyfeirio, ac mae sefydlwyr-artistiaid y cwmni wedi dod yn fwy sefydledig, ond mae'n bwysig i ni gynnal ein gallu i nofio yn erbyn y llanw. Yn ein barn ni, mae hyn yn golygu bod angen cenhedlaeth newydd o dalent sy'n debygol o ddod o'r tu allan i'r brif-lif. Dyma pam rydym yn awyddus i ddenu pobl newydd sy'n dod o bob math o gefndir cymdeithasol a llwybr gyrfa, nid yn unig y rheiny sy'n symud drwy lwybrau confensiynol i yrfaedd yn y celfyddydau.



PWY YDYCH CHI?

Rydych yn berson egnïol gyda sgiliau digidol rhagorol a dealltwriaeth am farchnata a'r cyfryngau cymdeithasol, sy'n edrych ymlaen at brofiad heriol ac amrywiol o weithio gyda sefydliad creadigol a phrysus. Mae gennych chi lygad graff am ddyluniad a dychymyg ac yn rhoi sylw i fanylder.

Efallai fod gennych brofiad blaenorol yn y theatr neu feysydd celfyddydol eraill, fel rhan o swydd neu ran arall o'ch bywyd, ond mae'n bwysicach bod gennych y sgiliau, y priodweddau a'r profiad sy'n berthnasol i'r swydd. Rydych yn hoffi gwneud i bethau ddigwydd, rydych yn dysgu'n gyflym, ac rydych yn dda am ddeall sut mae pethau'n gweithio. Mae pobl o bob cefndir yn bwysig i chi ac rydych wedi cael profiadau a chyfleodd diwylliannol cyffrous, o ansawdd dda.

Efallai eich bod yn cymryd llwybr anghonfensiynol i fydd y celfyddydau - efallai nad ydych yn gwneud bywoliaeth yn y sector creadigol ar hyn o bryd, a'ch bod yn gweithio yn y maes fel rhan o'ch diddordeb, oherwydd eich bod yn frwd drosto, neu efallai mai eilbeth ydyw. Neu efallai eich bod yn dymuno dychwelyd i'r gwaith ar ôl seibiant gyrfa.

Gallwch ysgrifennu'n syml a chlir a threfnu a chyflwyno gwybodaeth yn gydlynol. Wedi dweud hynny, mae'n iawn os ydych yn defnyddio meddalwedd i'ch cynorthwyo gyda sillafu a gramadeg.

Rydych yn gallu gweithio yn Abertawe. Mae'r oriau yn hyblyg a gellir eu trefnu i gyd-fynd â chyfrifoldebau gofal plant, anghenion trafnidiaeth gyhoeddus etc. Rydym yn agored i gynigion rhannu swydd.

BETH FYDDWCH CHI'N EI WNEUD?

Creu Cynnwys a Hunaniaeth Brand

Creu delweddau, fideo, a chynnwys cyfryngau cymdeithasol a gweledol eraill sy'n cyfathrebu a dogfennu'r ystod lawn o weithgareddau Volcano yn effeithiol ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd targed.

Gwefan a'r Cyfryngau Cymdeithasol

Cynnal a diweddarau prif ac is-wefannau'r cwmni a goruchwylio llwyfannau Instagram, Twitter, Facebook, Vimeo, a chyfryngau eraill y cwmni.

Rheolaeth Ddigidol

Bydd yr unigolyn yn y swydd hon yn goruchwylio a chynnal man gweithio a seilwaith digidol y cwmni ac ef fydd y Swyddog Diogelu Data ac E-Ddioglewch.

Prosiectau Digidol

Byddwch yn cael y cyfle i gynig a chydlynu prosiectau cyfranogol digidol sy'n cysylltu Volcano gyda'r gymuned leol a sefydliadau eraill.

Marchnata ar y Cyd

Gweithio gyda defnyddwyr eraill lleoliad Volcano (cynrychiadau sy'n ymweld, grwpiau cymunedol etc) i'w cynorthwyo i farchnata eu gwaith yn effeithiol.

Comisiynu

Byddwch yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau megis ffotograffiaeth, cyfieithu, dylunio print a chynhyrchu neu olygu fideo, pan na wneir hynny'n fewnol.

Mesur a Gwerthuso

Byddwch yn gyfrifol am gasglu data mewn perthynas â swyddogaethau digidol a chyfryngau cymdeithasol y cwmni gan weithio gyda'r timau craidd i fesur ymgysylltiad a chyrhaeddiad.

Strategaeth

Byddwch yn cyfrannu at drafodaethau ynghylch strategaeth y cwmni a rôl Cyfryngau Digidol a Marchnata o fewn y strategaeth hon.



PA SGILIAU A PHRIODWEDDAU SYDD EU HANGEN AR GYFER Y SWYDD HON?

HANFODOL

- Rydych yn berson egniol, trefnus sy'n gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag eraill o fewn y sefydliad a thu allan.
- Rydych yn hyfedr gyda Google Workspace, WordPress, Canva, Photoshop a chymwysiadau perthnasol eraill
- Rydych yn defnyddio ac yn mwynhau'r cyfryngau cymdeithasol

DYMUNOL

- Gallwch sgwrsio yn Gymraeg a/neu ysgrifennu yn Gymraeg gyda digon o gywirdeb i greu e.e. cynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.
- Gallwch fentora a rhoi cymorth i wirfoddolwyr, interniaid, neu brentisiaid
- Mae gennych chi brofiad o weithio gyda chyllideb neu o fewn cyllideb
- Gallwch gynllunio a threfnu eich llwyth gwaith eich hun
- Mae gennych un neu fwy o'r sgiliau canlynol: ffotograffiaeth; dylunio graffeg; golygu fideo; dadansoddi data; ysgrifennu copi.

BAROD I WNEUD CAIS?

- [LLENWCH FFURFLEN GAIS AR-LEIN](#). Cewch wneud hynny yn Gymraeg neu Saesneg.
- Dylid cynnwys eich CV a manylion dau ganolwr all dystio i chi (ni fyddwn yn cysylltu â nhw cyn gofyn i chi'n gyntaf)
- [LLENWCH Y FFURFLEN FONITRO HEFYD](#); mae hon yn ddi-enw ac yn gadael i ni wybod a ydym yn cyrraedd y bobl gywir.

C - A gaf i wneud cais drwy glipiau sain/fideo?

A - Cewch, gallwch uwchlwytho eich clipiau sain neu fideo yn lle ysgrifennu ar gyfer prif gwestiynau'r cais.

Os oes gennych gwestiynau cyn gwneud cais, neu os hoffech ddod i ymweld yn anffurfiol, anfonwch e-bost at Claudine Conway drwy claud@volcanotheatre.co.uk

Dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 31 Awst 2022

- Bydd cyfweiliadau yn cael eu cynnal yn fuan ym mis Medi-anelwn i fod yn hyblyg gyda dewisiadau o ddyddiadau cyn belled ag y bo modd.
- Bydd costau teithio rhesymol yn cael eu had-dalu.
- Byddwn yn gofyn cwestiynau amdanoch chi, amdanom ni, ynghylch sut y gall y swydd eich cynorthwyo, ac am y diwydiant.
- Pe baech yn llwyddiannus, byddwch yn dechrau'r swydd ym mis Medi neu Hydref 2022.
- Pe baech yn aflwyddiannus, byddwn yn cynnig adborth ar eich cais gan gadw mewn cysylltiad â chi i roi gwybod i chi am unrhyw gyfleoedd sydd ar y gwell gennym ni neu'r sector yn y dyfodol.

www.volcanotheatre.cymru

VOLCANO THEATRE | ART HAUS

MUSIC + FILM
FEST
SUN 20 NOV NOON - 11PM

01792 646005

ST